OFFERYNNAU STATUDOL CYMRU

# 2009 Rhif 3375 (Cy.297)

## PRIFFYRDD, CYMRU

## Gorchymyn Cefnffordd Caerdydd i Lanconwy (yr A470) (Cwm-bach i'r Bontnewydd ar Wy) 2009

| | |
|---|---|
| *Gwnaed* | *21 Rhagfyr 2009* |
| *Yn dod i rym* | *6 Ionawr 2010* |

Mae Gweinidogion Cymru, drwy arfer y pwerau a roddir gan adrannau 10 a 12 o Ddeddf Priffyrdd 1980(**1**), a phob p er galluogi arall (**2**), yn gwneud y Gorchymyn hwn.

**1**. Daw'r briffordd newydd y mae Gweinidogion Cymru yn bwriadau ei hadeiladu ar hyd y llwybr a ddisgrifir yn Atodlen 1 i'r Gorchymyn hwn yn gefnffordd o'r dyddiad pan ddaw'r Gorchymyn hwn i rym.

**2**. Dangosir llinell ganol y gefnffordd newydd â llinell ddu drom a dangosir y cynigion cysylltiedig ar gyfer ffyrdd ymyl â llinellau gwynion wedi'u torri ar y plan a adneuwyd.

**3**. Bydd y darnau o'r gefnffordd a ddisgrifir yn Atodlen 2 i'r Gorchymyn hwn, ac a ddangosir â llinellau rhesog llydan ar y plan a adneuwyd, yn peidio â bod yn gefnffordd ac yn dod yn ffyrdd dosbarthiadol ar y dyddiad pan fydd Llywodraeth Cynulliad Cymru yn hysbysu Cyngor Sir Powys fod y cefnffyrdd newydd ar agor ar gyfer traffig trwodd.

**4**. Yn y Gorchymyn hwn mesurir pob mesur pellter ar hyd llwybr y briffordd berthnasol;

(i) ystyr 'y plan a adneuwyd' ('*the deposited plan*') yw'r plan sy'n dwyn rhif HA 10/2 WAG 2 sydd wedi'i farcio 'Gorchymyn Cefnffordd Caerdydd i Lanconwy (yr A470) (Cwm-bach

(**1**) 1980 p.66

(**2**) Yn rhinwedd O.S . 1999/672 erthygl 2 ac Atodlen 1, a pharagraff 30 o Atodlen 11 i Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006, mae'r pwerau hyn bellach wedi'u trosglwyddo i Weinidogion Cymru o ran Cymru.

WELSH STATUTORY INSTRUMENTS

# 2009 No. 3375 (W.297)

## HIGHWAYS, WALES

## The Cardiff to Glan Conwy Trunk Road (A470) (Cwm-bach to Newbridge-on-Wye) Order 2009

| | |
|---|---|
| *Made* | *21 December 2009* |
| *Coming into force* | *6 January 2010* |

The Welsh Ministers, in exercise of powers conferred by sections 10 and 12 of the Highways Act 1980(**1**), and of all other enabling powers (**2**), make this Order.

**1**. The new highway that the Welsh Ministers propose to construct along the route described in Schedule 1 to this Order shall become a trunk road as from the date when this Order comes into force.

**2**. The centre line of the new trunk road is indicated by a heavy black line and the associated side roads proposals are indicated by broken white lines on the deposited plan.

**3**. The lengths of trunk road described in Schedule 2 to this Order, and shown by broad striped hatching on the deposited plan shall cease to be trunk road and shall become classified roads as from the date on which the Welsh Assembly Government notifies the County Council of Powys that the new trunk roads are open for through traffic.

**4**. In this Order all measurements of distance are measured along the route of the relevant highway;

(i). 'the deposited plan' ('y plan a adneuwyd') means the plan numbered HA 10/2 WAG 2 marked 'The Cardiff to Glan Conwy Trunk Road (A470) (Cwm-bach to Newbridge-on-

(**1**) 1980 c.66

(**2**) By virtue of S. I. 1999/672 article 2 and Schedule 1, and paragraph 30 of Schedule 11 to the Government of Wales Act 2006, these powers are now transferred to the Welsh Ministers in relation to Wales.

i'r Bontnewydd ar Wy) 2009', wedi'i lofnodi ar ran Gweinidogion Cymru a'i adneuo yn Uned Storio ac Adfer Cofnodion Llywodraeth Cynulliad Cymru (RSRU), Neptune Point, Ocean Way, Caerdydd;

(ii) ystyr 'y gefnffordd' ('*the trunk road*') yw Cefnffordd Caerdydd i Lanconwy (yr A470);

(iii) 'y gefnffordd newydd' ('*the new trunk road*') yw'r briffordd a grybwyllir yn erthygl 1 o'r Gorchymyn hwn.

**5**. Daw'r Gorchymyn hwn i rym ar 6 Ionawr 2010 a'i enw yw 'Gorchymyn Cefnffordd Caerdydd i Lanconwy (yr A470) (Cwm-bach i'r Bontnewydd ar Wy) 2009'

Wye) Order 2009' , signed on behalf of the Welsh Ministers and deposited at the Welsh Assembly Government Record Storage and Retrieval Unit (RSRU), Neptune Point, Ocean Way, Cardiff;

(ii) 'the trunk road' ('y gefnffordd') means the Cardiff to Glan Conwy Trunk Road (A470);

(iii) 'the new trunk road' ('y gefnffordd newydd') means the highway mentioned in article 1 of this Order.

**5**. This Order comes into force on 6 January 2010 and its title is 'The Cardiff to Glan Conwy Trunk Road (A470) (Cwm-bach to Newbridge-on-Wye) Order 2009'

Llofnodwyd ar ran Gweinidogion Cymru

Signed on behalf of the Welsh Ministers

*Jeff Collins*

**J Collins** 21 Rhagfyr 2009

Dirprwy Gyfarwyddwr Cynllunio a Llywodraethu Trafnidiaeth
Llywodraeth Cynulliad Cymru

**J Collins** 21 December 2009

Deputy Director of Transport Planning and Governance
Welsh Assembly Government

## ATODLEN 1

## LLWYBR Y GEFNFFORDD NEWYDD

Mae llwybr y gefnffordd newydd i'r gogledd o Lanfair-ym-Muallt ac ychydig i'r de o'r Bontnewydd ar Wy yn Sir Powys fel a ganlyn:—

llwybr y mae ei hyd o gwmpas 5.46 cilometr sy'n dechrau wrth bwynt ar y gefnffordd bresennol (yr A470) rhyw 150 o fetrau i'r gogledd o'i chyffordd â'r ffordd ddiddosbarth, yr U1318 yn gyfagos i eiddo a elwir Gwern-yfed-fach (wedi'i farcio A ar y plan a adneuwyd) ac sydd wedyn yn ymestyn tua'r gogledd hyd at bwynt ar y gefnffordd bresennol (yr A470) wrth ei chyffordd â'r ffordd breifat sy'n arwain at yr eiddo a elwir Dolwen a Fferm Woodcastle yn y Bontnewydd ar Wy (wedi'i farcio B ar y plan a adneuwyd).

## ATODLEN 2

## DARNAU O GEFNFFORDD SY'N PEIDIO A BOD YN GEFNFFORDD

Dyma lwybrau'r darnau o gefnffordd sy'n peidio â bod yn gefnffordd yn Sir Powys:—

(**1**) y darn hwnnw o'r gefnffordd (yr A470) y mae ei hyd o gwmpas 250 o fetrau a leolir rhwng pwynt yn gyfagos i'r eiddo a elwir Gwern-yfed-fawr (wedi'i farcio 1 ar y plan a adneuwyd) a phwynt rhyw 100 o fetrau i'r de o'i chyffordd â'r U1326 Ffordd Llanfair-ym-Muallt (wedi'i farcio 2 ar y plan a adneuwyd).

(**2**) y darn hwnnw o gefnffordd yr A470, y mae ei hyd o gwmpas 4.95 cilometr, a leolir rhwng pwynt sy'n gyfagos at ei chyffordd â mynedfa breifat sy'n arwain at yr eiddo a elwir Pen-y-banc (wedi'i farcio 3 ar y plan a adneuwyd) a chan gynnwys Pont Nant Dulas yng Nghwm-bach a Phont-ar-Ithon, a phwynt sy'n gyfagos i'r eiddo a elwir Dolithon, i'r de o'r Bontnewydd ar Wy (wedi'i farcio 4 ar y plan a adneuwyd).

©℗ Hawlfraint y Goron 2009

Argraffwyd a chyhoeddwyd yn y Deyrnas Unedig gan The Stationery Office Limited o dan awdurdod ac arolygiaeth Carol Tullo, Rheolwr Gwasg Ei Mawrhydi ac Argraffydd Deddfau Seneddol y Frenhines.

## SCHEDULE 1

## ROUTE OF THE NEW TRUNK ROAD

The route of the new trunk road is north of Builth Wells and just south of Newbridge-on-Wye in the County of Powys as follows:—

a route about 5.46 kilometres in length, starting at a point on the existing trunk road (A470) about 150 metres north of its junction with the unclassified road U1318 adjacent to the property known as Gwern-yfed-fach (marked A on the deposited plan) and then extending in a northerly direction to a point on the existing trunk road (A470) at its junction with the private road leading to the properties known as Dolwen and Woodcastle Farm in Newbridge-on-Wye (marked B on the deposited plan).

## SCHEDULE 2

## LENGTHS OF TRUNK ROAD CEASING TO BE TRUNK ROAD

The lengths of trunk road ceasing to be trunk road are routes in the County of Powys as follows:—

(**1**) that length of the trunk road (A470) about 250 metres in length situated between a point adjacent to the property known as Gwern-yfed-fawr (marked 1 on the deposited plan) and a point about 100 metres south of its junction with the U1326 Builth Road (marked 2 on the deposited plan).

(**2**) that length of the A470 trunk road, about 4.95 kilometres in length, situated between a point adjacent to its junction with the private means of access leading to the property known as Pen-y-banc (marked 3 on the deposited plan) and including the Dulas Brook Bridge at Cwm-bach and the Pont-ar-Ithon Bridge, and a point adjacent to the property known as Dolithon, south of Newbridge-on-Wye (marked 4 on the deposited plan).

© Crown copyright 2009

Printed and Published in the UK by the Stationery Office Limited under the authority and superintendence of Carol Tullo, Controller of Her Majesty's Stationery Office and Queen's Printer of Acts of Parliament.

OFFERYNNAU STATUDOL CYMRU

# 2009 Rhif 3375 (Cy.297)

## PRIFFYRDD, CYMRU

Gorchymyn Cefnffordd Caerdydd i Lanconwy (yr A470) (Cwm-bach i'r Bontnewydd ar Wy) 2009

WELSH STATUTORY INSTRUMENTS

# 2009 No. 3375 (W.297)

## HIGHWAYS, WALES

The Cardiff to Glan Conwy Trunk Road (A470) (Cwm-bach to Newbridge-on-Wye) Order 2009

£4.00

W613/01/10 ON